**Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Cais am dystiolaeth lafar oddi wrth y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Chwefror 2014**

**Cyflwyniad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio**

## CYFLWYNIAD

1. Diben y papur hwn yw egluro ar ba sail y lluniwyd y polisi ar glustogfeydd yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo (MTAN 2 Glo). Mae'n ymdrin hefyd â materion cysylltiedig.

2. Mae'r papur yn ymdrin â'r meysydd a ganlyn:

   - Nodweddion y system gynllunio
   - Y cefndir i'r syniad o glustogfeydd
   - Amgylchiadau eithriadol (paragraph 49 MTAN 2)
   - Rôl y Cynllun Datblygu Lleol
   - Safbwynt Gweinidogion Cymru am gynnwys y ddeiseb

## NODWEDDION Y SYSTEM GYNLLUNIO

3. Un o gonglfeini'r system gynllunio ym Mhrydain yw rôl statudol y cynllun datblygu, sy'n un o nodweddion proses sy'n 'seiliedig ar gynlluniau'. Wrth benderfynu ar gais unigol, dylai'r awdurdod cynllunio wneud hynny yn unol â'r Cynllun Datblygu perthnasol, ond bai bod amodau perthnasol yn awgrymu fel arall. Gall polisi cynllunio cenedlaethol a nodiadau cyngor technegol fod yn ystyriaeth berthnasol mewn achos penodol, a rhaid ystyried polisi cynllunio cenedlaethol a nodiadau cyngor technegol wrth baratoi cynlluniau datblygu.

4. Un o nodweddion pwysig eraill y system gynllunio yw'r disgresiwn a roddir i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau fedru gwneud y penderfyniadau hynny yn wyneb amgylchiadau unigryw a chymhleth, ac yng nghyd-destun democratiaeth leol. Mae hynny'n fwriadol, ac mae'n rhoi'r gallu i fod yn hyblyg ac i addasu i sefyllfaoedd gwahanol a newidiol. Mae'n golygu bod modd mynd ati, o dan unrhyw amgylchiadau penodol, i chwilio am yr ateb cynllunio priodol, ac yna dod o hyd i'r ateb hwnnw. Mae hefyd yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## POLISI CYNLLUNIO CENEDLAETHOL

5. Mae'n polisïau cenedlaethol ar gynllunio yn cael eu hamlinellu ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW) ac ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru (MPPW) sy'n adlewyrchu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu cynaliadwy. Mae MPPW, yn benodol, yn nodi'r rôl hanfodol sydd gan awdurdodau cynllunio lleol i'w chwarae o ran sicrhau cydbwysedd priodol rhwng defnyddio adnoddau mwynau yn ddoeth, amwynder a'r amgylchedd, ac mae'n cynnig y fframwaith polisi

er mwyn iddynt fedru cyflawni'r swyddogaeth honno. Mae'n nodi'n glir sut y dylai cynlluniau datblygu fynd i'r afael â'r materion hynod bwysig sy'n rhwym o godi wrth inni gynllunio er mwyn bodloni angen ein cymdeithas am fwynau, gan gynnwys glo.  Mae dyfyniad o MPPW, sy'n amlinellu'r sefyllfa o ran polisi ar lo, i'w weld yn yr atodiad i'r papur hwn.

6. Mae Nodiadau Cyngor Technegol yn egluro sut y dylid rhoi polisi cynllunio cenedlaethol ar waith yn ymarferol.  Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo  (MTAN2) yn rhoi cyngor cynhwysfawr, sy'n ategu MPPW, mewn perthynas â datblygiadau glo brig a glo dwfn. Roedd ymrwymiadau'n ymwneud â chlustogfeydd, ag asesiadau o effaith ar iechyd, a chynnwys y cyhoedd, yn ein Rhaglen Lywodraethu, 'Cymru'n Un', a gwireddwyd yr ymrwymiadau hynny yn MTAN 2. Y polisi a amlinellir yn MTAN 2 ar glustogfeydd yw na fydd datblygiadau glo brig yn dderbyniol fel arfer o fewn 500m i aneddiadau (ac o fewn ardaloedd gwarchodedig). Mae yna rai eithriadau, serch hynny.

7. Nid yw polisi cynllunio cenedlaethol a nodiadau cyngor technegol yn ddogfennau sy'n rhoi cyfarwyddiadau haearnaidd ond maent, serch hynny, yn 'ystyriaethau perthnasol' y dylai awdurdod cynllunio eu pwyso a'u mesur wrth wneud penderfyniad. Er nad yw polisïau cynllunio yn rhoi unrhyw orfodaeth ar yr awdurdod cynllunio, dylai gadw at y polisïau hynny, a dim ond os oes rhesymau cynllunio clir dros wneud hynny y dylai wyro oddi wrthynt. O dan y system hon, sy'n un yn ôl disgresiwn, yr awdurdod lleol sy'n barnu, fel y gwêl yn dda, faint o bwyslais y mae am ei roi ar yr ystyriaethau perthnasol wrth iddo benderfynu ar gais.

## Y CEFNDIR I'R POLISI YN MTAN 2

8. Cafodd MTAN 2 ei ddatblygu ar y cyd â grŵp cynghori technegol, a hynny ar sail ymchwil annibynnol. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys pobl yn cynrychioli cymunedau glofaol a grwpiau amgylcheddol. Craffwyd yn drwyadl ar y syniad o glustogfeydd wrth i'r gwaith o ddatblygu'r MTAN fynd rhagddo, ac roedd y broses graffu honno'n cynnwys dau ymgynghoriad cyhoeddus.

9. Datblygu i gefnogi'r diwydiant glo wnaeth llawer o gymunedau yng nghymoedd y De, ac mae pa mor agos yw cymunedau i'r glo yn cael dylanwad o ran sut y gellir manteisio ar yr adnodd hwnnw. Ar sail yr holl dystiolaeth oedd ar gael, roedd yn glir bod yn rhaid i MTAN2 fod yn ddigon hyblyg i ymateb i unrhyw newidiadau yn yr hinsawdd economaidd neu yn y sefyllfa gyflogaeth, ond bod angen iddo, ar yr un pryd, fod yn ddigon cadarn i warchod cymunedau a'r amgylchedd.

## AMGYLCHIADAU EITHRIADOL

10. Mae'r ffactorau a allai gael eu hystyried yn amgylchiadau eithriadol yn cael eu hamlinellu yn yr  MTAN mewn adran o'r enw'*Exceptional Circumstances*' (paragraff 49, t 10). Nid mater o ganiatáu effeithiau

annerbyniol ar gymunedau yw eithriad – mae’n rhaid i unrhyw effaith fod yn dderbyniol bob amser. Mae'r eithriadau yno fel y bo modd pwyso a mesur a allai cloddio am lo arwain at fanteision clir a diamheuol i'r gymuned ac i'r amgylchedd.

## RÔL CYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL

11. Mae'r broses o lunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn ffordd bwysig o sicrhau bod y polisi ar glustogfeydd a amlinellir yn MTAN 2 yn cael ei weithredu. Mae'r MTAN yn rhoi inni fframwaith cynhwysfawr y gallwn ei ddefnyddio, yn ystod y broses o lunio cynlluniau datblygu lleol, er mwyn mynd ymdrin â gwaith cloddio am lo yn y dyfodol, ac â'r sefyllfa a etifeddwyd yn sgil gwaith o'r fath yn y gorffennol. Mae'n rhoi mwy o sicrwydd i gymunedau mewn perthynas â gweithfeydd glo. Mae bod yn rhan o'r broses o lunio CDLl hefyd yn ffordd bwysig i gymunedau lleol fedru dylanwadu ar y strategaeth a gaiff ei mabwysiadu er mwyn sicrhau bod adnoddau glo yn eu hardaloedd yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy.

## SAFBWYNT LLYWODRAETH CYMRU AR GYNNWYS Y DDEISEB

12. Mae'n rhaid i'r system gynllunio dafoli buddiannau gwahanol garfannau wrth iddi benderfynu ar ateb cynaliadwy. Yn hynny o beth, felly, ni all deddfwriaeth fynd i'r afael â phob amgylchiad posibl, ac mae'r disgresiwn sydd gan y rheini sy'n gwneud penderfyniad i adlewyrchu sefyllfaoedd gwahanol a newidiol yn un o gryfderau mawr y system. Heb y disgresiwn hwnnw, mae'n bosibl na fydd modd dod o hyd i atebion, a gallai hynny arwain at sefyllfa lle byddai buddsoddiad, ac yn ei sgil, unrhyw obaith o sicrhau manteision i'r gymuned, yn mynd i rywle arall.

13. Nid oes unrhyw bolisïau cynllunio yn y Bil Cynllunio drafft. Bydd ein polisïau cynllunio yn parhau i gael eu hamlinellu ym Mholisi Cynllunio Cymru, ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru, ac mewn nodiadau cyngor technegol. Mae angen i bolisïau cynllunio fod yn hyblyg ac mae angen hefyd inni fedru eu diwygio mewn da bryd wrth i amgylchiadau newid, yn hytrach na'u bod yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol. Drwy wneud canllawiau cynllunio yn rhan o un o ddeddfau'r Cynulliad, byddai angen cyflwyno deddf diwygio bob tro y byddai'r canllawiau cynllunio yn cael eu newid. Ni fyddai hynny'n beth synhwyrol i'w wneud.

14. Mae'n dilyn, felly, nad yw'n bosibl nac yn briodol i MTAN 2 gael ei wneud yn gyfraith. Mae'r ffactorau y mae angen eu hystyried yn gymhleth ac os ydym am ddod o hyd i'r ateb priodol yn y lle priodol, mae angen dull o weithredu sy’n golygu bod modd rhoi ystyriaeth lawn i'r amgylchiadau unigryw sy'n wynebu unrhyw ardal benodol. O'r

herwydd, mae dull o weithredu sy'n seiliedig ar bolisi yn ffordd fwy priodol ac effeithiol o sicrhau clustogfeydd na deddfwriaeth.